OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2192

## Rheoliadau Plant Anabl (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2001

**Personau na ellir sicrhau gwasanaethau oddi wrthynt drwy gyfrwng taliad uniongyrchol**

**2.**—(1) Yn achos taliad uniongyrchol sy'n cael ei roi i berson sy'n dod o fewn adran 17A(2)(a) o'r Ddeddf, mae'r personau canlynol o ddisgrifiad rhagnodedig at ddibenion adran 17A(3) o'r Ddeddf—

(a) priod y talai;

(b) person sy'n byw gyda'r talai fel priod i'r talai;

(c) person yn byw ar yr un aelwyd â'r talai sydd—

(i) yn rhiant neu'n rhiant-yng-nghyfraith;

(ii) yn fab neu'n ferch;

(iii) yn fab-yng-nghyfraith neu'n ferch-yng-nghyfraith;

(iv) yn llysfab neu'n llysferch;

(v) yn frawd neu'n chwaer;

(vi) yn fodryb neu'n ewythr; neu

(vii) yn nain neu'n daid;

i'r talai;

(ch) priod unrhyw berson a bennir yn is-baragraff (c) sy'n byw ar yr un aelwyd â'r talai; a

(d) person sy'n byw gydag unrhyw berson a bennir yn is-baragraff (c) fel priod i'r person hwnnw.

(2) Yn achos taliad uniongyrchol sy'n cael ei roi i berson sy'n dod o fewn adran 17A(2)(b) o'r Ddeddf, mae'r personau canlynol o ddisgrifiad rhagnodedig at ddibenion adran 17A(3) o'r Ddeddf—

(a) priod y talai;

(b) person sy'n byw gyda'r talai fel priod i'r talai;

(c) person yn byw ar yr un aelwyd â'r talai sydd—

(i) yn rhiant neu'n rhiant-yng-nghyfraith;

(ii) yn frawd neu'n chwaer;

(iii) yn fodryb neu'n ewythr;

(iv) yn nain neu'n daid;

i'r talai;

(ch) priod unrhyw berson a bennir yn is-baragraff (c) sy'n byw ar yr un aelwyd â'r talai; a

(d) person sy'n byw gydag unrhyw berson a bennir yn is-baragraff (c) fel priod i'r person hwnnw.